


# DAL GYDA'I GILYDD: GOFALWYR YN SIARAD AM EU TAITH



# Beth wnaethom ni

Ymwelodd Llais â grwpiau cymunedol i siarad â phobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr, a'u teuluoedd. Roedden ni eisiau gwrando a deall sut olwg a theimlad oedd ar ofal a chymorth iddyn nhw – a beth fyddai gofal a chefnogaeth well yn ei olygu yn eu bywydau.

Roedd hyn yn cynnwys mynychu grwpiau yn y gymuned, fel y rhai hynny yn cael ei redeg gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, i glywed profiadau uniongyrchol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhoddodd y sgyrsiau hyn fewnwelediad gwerthfawr inni i'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu a'r gefnogaeth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

# Beth ddywedodd pobl wrthym ni

Roedd yn amlwg o'n sgyrsiau bod angen mwy o gefnogaeth, gyda llawer bron â bod ar fin torri. Rhannodd gofalwyr eu bod yn aml yn teimlo'n anweledig, yn unig ac ar goll ac yn ansicr ynghylch pa gymorth sydd ar gael. Nid yw llawer eisiau bod yn faich ar eraill, hyd yn oed pan maen nhw'n cael trafferth.

# Clinig Cof

Ar ôl apwyntiadau yn y clinig cof, dywedodd pobl wrthym eu bod yn teimlo dan bwysau pan gawsant eu diagnosis. Er iddyn nhw gael ychydig o daflenni i'w cefnogi, roedd hyn yn aml yn teimlo fel gormod, yn rhy gynnar.

Rhannodd pobl y byddent yn gwerthfawrogi cael amser i brosesu'r newyddion yn gyntaf, ac yna derbyn gwybodaeth glir a chefnogol pan fyddant yn teimlo'n barod – yn hytrach nag ar adeg y diagnosis.

Rhannodd gofalwyr hefyd nad oedd eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed yn ystod apwyntiadau. Dywedon nhw wrthym y bydden nhw'n gwerthfawrogi'r cyfle i siarad â chlinigwyr i gadarnhau manylion neu rannu arsylwadau a allai helpu i roi darlun mwy cyflawn o anghenion eu hanwylyd.

Awgrymodd llawer y byddai galwadau gwirio rheolaidd, efallai bob tri mis, yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran cefnogi'r person â dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.



**"Cafodd fy ngŵr ddiagnosis o ddementia flwyddyn yn ôl. Gadawon ni [y clinig cof] gyda phentwr o daflenni, ond pan gyrhaeddais adref, roedd yn rhaid i mi eu rhoi yn y gornel – roedd yn rhy llethol."**



"Cafodd fy ngŵr ddiagnosis o ddementia.**Am ddwy flynedd, roeddwn i'n teimlo'n flin – nid atog ef, ond at y diagnosis.** Dw i dal yn ceisio dod i delerau ag e. **Dydw i ddim eisiau i'w fywyd ddod i ben oherwydd dementia.** Os ydych chi'n ymddangos yn ymdopi, mae gwasanaethau'n cymryd yn ganiataol nad oes angen help arnoch chi."

# Gofal a chymorth dilynol

Roedd apwyntiadau dilynol yn y clinig cof yn aml yn teimlo'n rhy bell oddi wrth ei gilydd – fel arfer bob chwe mis neu hyd yn oed unwaith y flwyddyn. Roedden nhw'n teimlo y byddai cyswllt mwy rheolaidd yn eu helpu i feithrin perthynas gryfach â thîm y clinig cof, fel y gallai'r tîm ddod i adnabod y person y tu ôl i'r diagnosis yn iawn.

Nid dementia yn unig yw hyn – rhannodd un gofalwr ei phrofiad o gefnogi ei gŵr ar ôl strôc. Dywedodd wrthym, pan ddaeth ei therapi lleferydd i ben, fod y dilyniant wedi dod i ben hefyd, gan ei gadael hi'n teimlo'n unig ac yn ansicr ble i droi am help. Doedd hi ddim eisiau bod yn faich ar ei theulu – roedd ganddyn nhw eu bywydau eu hunain i'w rheoli.



**"Cafodd fy ngŵr strôc flwyddyn yn ôl, ac rwy'n teimlo fel ei fod wedi cael ei siomi. Roedd ganddo therapydd iaith a lleferydd a ddaeth yn wythnosol, ond ar ôl i hynny ddod i ben, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gefnogaeth na dilyniant pellach. Rwy'n ei helpu gyda'i leferydd adref, ond rwy'n credu y byddai'n elwa o fwy o therapi. Dydw i ddim yn gwybod ble i fynd am gymorth. Mae fy nheulu'n ymweld, ond dydw i ddim eisiau bod yn faich arnyn nhw – mae ganddyn nhw eu bywydau eu hunain."**

# Gwasanaethau Cymorth

Dywedodd gofalwyr wrthym fod dod o hyd i gefnogaeth a seibiant i'w hanwyliaid yn anodd – mae'r rhan fwyaf o wybodaeth ar-lein, mae gwasanaethau'n amrywio ar draws bwrdeistrefi, a chyda gofynion gofalu, yn aml nid oes ganddyn nhw'r amser na'r egni i chwilio am yr hyn sydd ar gael.

Weithiau mae gofalwyr yn aberthu eu hiechyd eu hunain oherwydd bod gwasanaethau cymorth yn gyfyngedig neu'n anhygyrch. Dywedodd un gofalwr wrthym ei bod hi angen seibiant yn daer ond na allai ddod o hyd i ganolfan ddydd yng Nghasnewydd. Mae hi'n gohirio dau lawdriniaeth pen-glin newydd oherwydd byddai gadael ei gŵr mewn cartref gofal yn teimlo fel y diwedd iddo.

Mae hyn yn dangos pa mor hanfodol yw darparu cefnogaeth hyblyg, leol sy'n diwallu anghenion gofalwyr heb orfodi dewisiadau amhosibl.

Mae ein hymgysylltiad diweddar â gofalwyr ac unigolion yn cyd-fynd yn agos â'r darlun cenedlaethol a amlygwyd yn adroddiad"State of Caring" Carers UK. Mae'r lleisiau rydyn ni wedi'u casglu'n lleol yng Ngwent yn adlewyrchu llawer o'r un pryderon a godwyd yn genedlaethol.



# Ein Hymateb i Ymchwiliad y Senedd: Cefnogi Gofalwyr Di-dâl



Mae ein hymateb diweddar i ymchwiliad y Senedd i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl yn adleisio llawer o themâu allweddol yr adroddiad:

- Straen ariannol: Gofalwyr yn torri'n ôl ar hanfodion fel bwyd a gwresogi, gyda llawer yn syrthio i ddyled neu dlodi.
- Iechyd meddwl a lles: Mae gofalwyr yn adrodd am lefelau uchel o straen, pryder ac unigedd. Mae Llais wedi clywed gan ofalwyr sy'n teimlo'n "anweledig" ac "ar fin torri".
- Mynediad at gefnogaeth: Mae arosiadau hir am asesiadau, gofal seibiant anghyson, a chyfathrebu gwael gan wasanaethau yn rhwystrau cyffredin.
- Adnabyddiaeth a llais: Mae gofalwyr eisiau cael eu gweld fel partneriaid mewn gofal, cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, a chael eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu hanghenion gwirioneddol.

# Troi Lleisiau'n Weithred

Er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir, rydym yn dechrau sgyrsiau gyda'n partneriaid. Mae'r cwestiynau hyn yn deillio o'r hyn a ddywedodd gofalwyr wrthym a'u nod yw llunio cefnogaeth fwy ymatebol a thosturiol. Byddwn yn parhau i chwyddo lleisiau, gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd, a gwthio am gefnogaeth fwy hygyrch, tosturiol a chydlynol i ofalwyr ledled Gwent. Isod mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gennym gan bartneriaid.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

### Y Clinig Cof

1. **Cymorth Ôl-Ddiagnosis**

   A allwch chi ddarparu dilyniant strwythuredig ar ôl diagnosis (e.e., ar ôl 3 mis) i atal teuluoedd rhag teimlo eu bod wedi cael eu gadael?

   **Ymateb:**

   Ydym, rydym yn darparu apwyntiadau ôl-ddiagnostig 3-4 mis ar ôl diagnosis.

2. **Cyfranogiad Gofalwyr**

   Sut ydych chi'n sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am ofal a meddyginiaeth, yn enwedig pan na all y person â dementia eiriol drosto'i hun?

   **Ymateb:**

   Anogir gofalwyr i gymryd rhan ym mhob apwyntiad, oni bai bod cleifion wedi mynegi dymuniad i beidio â'u cynnwys. Byddai Galluedd a Phŵer Atwrnai Arhosol (LPA) hefyd yn cael eu hystyried.

### 3 Hygyrchedd a Chyfathrebu

Beth yw eich amser ymateb presennol ar gyfer galwadau a negeseuon, a sut ydych chi'n sicrhau y gall gofalwyr gysylltu â rhywun yn hawdd i gael cyngor?

**Ymateb:**

Mae hyn yn dibynnu ar ardaloedd lleol, swyddi gwag, salwch, ymrwymiadau clinig ac ati – fodd bynnag, ein nod yw ateb negeseuon/galwadau cyn gynted â phosibl. Mae desg ddyletswydd ar gyfer unrhyw ymholiadau brys sy'n cael ei staffio gan glinigwr o ddydd Llun i ddydd Gwener 9–5.

### 4 Gwybodaeth a Chanllawiau

Ydych chi'n cynnig canllaw clir a hygyrch i deuluoedd ar ôl diagnosis sy'n cynnwys gwasanaethau cymorth lleol a manylion cyswllt?

**Ymateb:**

Rydym yn cyfeirio at Gymdeithas Alzheimer, Hybiau Dementia, mae taflenni diagnostig yn aros i gael eu hargraffu, sydd hefyd yn helpu. Mae gennym Wefan y Gwasanaeth Asesu Cof (MAS) sydd mewn defnydd ac mae ganddi hefyd ddolenni i wasanaethau cymorth lleol ynghyd â manylion cyswllt.

### 5 Cymorth Ymarferol

A oes gweithgareddau neu adnoddau a argymhellir i helpu i arafu dirywiad (e.e., ymarferion gwybyddol, gweithgareddau lleferydd ac iaith)?

**Ymateb:**

Mae gwefan MAS yn manylu ar weithgareddau i gynorthwyo ysgogiad gwybyddol, byddai atgyfeiriadau at wasanaethau eraill fel TLlaI/ThG yn cael ei hystyried ar sail unigol.

**6 Parhad gofal.**

Sut ydych chi'n sicrhau bod gofalwyr yn gwybod pwy yw eu nyrs neu'u pwynt cyswllt penodedig?

**Ymateb:**

Byddai MAS yn darparu manylion cyswllt ar gyfer eu tîm ar adeg y diagnosis. Nid yw nyrsys pwrpasol bob amser yn bosibl, oherwydd salwch/swyddi gwag ac ati, fodd bynnag rydym yn ymdrechu i sicrhau bod parhad, lle bo modd.

## Gwasanaethau Strôc

**1 Mynediad at Gymorth Parhaus**

Ar ôl i'r driniaeth ôl-strôc gychwynnol ddod i ben, a all gofalwyr neu gleifion gysylltu â'ch tîm i gael rhagor o gymorth neu gyngor? Os felly, sut?

**Ymateb:**

Anfonir gwybodaeth at bob claf am y 'Gwasanaeth Byw'n Dda ar ôl Strôc' sy'n darparu cefnogaeth ac yn cyfeirio at wasanaethau a chyfleoedd lleol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gysylltu'n agos â'r Gwasanaeth Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol a'r Niwrostiwt Coleg Adferiad Niwro sy'n rhoi cyfle i gael mynediad at rywfaint o gefnogaeth tymor hwy yn y gymuned gan gynnwys sesiynau Niwrolegol mewn campfeydd lleol, grwpiau Affasia, côr Strôc, a Grwpiau Cymorth Strôc. I siarad ag un o'n hymarferwyr Byw'n Dda ar ôl Strôc, ffoniwch ni ar 01495 363461 (8:00yb – 4:30yh, o ddydd Llun i ddydd Gwener). Peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn). Os oes angen cefnogaeth barhaus ar gleifion pan fydd y tîm Rhyddhau Strôc Gynnar yn cwblhau eu hymyrraeth, caiff pobl eu cyfeirio at neu eu cysylltu â gwasanaethau priodol yn eu hardal – gall y rhain ddim fod yn benodol i strôc fel gall pobl elwa o grwpiau mynediad cyffredinol sydd yn eu cymdogaeth leol.

## 2 Gofal Dilynol

A oes proses ddilynol strwythuredig ar ôl i'r therapi ddod i ben i wirio cynnydd a nodi anghenion parhaus?

**Ymateb:**

I bobl sy'n cwblhau cymorth gyda'r Tîm Rhyddhad Cynnar â Chymorth, mae adolygiad ar ddiwedd yr ymyrraeth i wirio cynnydd yn erbyn nodau a nodi cynlluniau ar gyfer adferiad parhaus. Nid oes adolygiad ymhellach ymlaen oherwydd cyfyngiadau adnoddau presennol. Mae pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r gwasanaeth yn cael manylion y 'Gwasanaeth Byw'n Dda Ar ôl Strôc' a gallant gael mynediad at gyfeirio a gwybodaeth drwyddo.

## 3 Llwybrau Atgyfeirio

Os oes angen therapi ychwanegol, beth yw'r broses ar gyfer ail-atgyfeirio? A all gofalwyr gychwyn hyn, neu a oes angen meddyg teulu?

**Ymateb:**

Ar ôl cwblhau'r rhaglen Rhyddhad Cynnar â Chymorth Strôc, mae cytundeb cilyddol ar waith gyda'r gwasanaeth Niwroffisiotherapi i bobl ailgyfeirio eu hunain ar gyfer problemau penodol i strôc heb yr angen i fynd trwy'r Meddyg Teulu. Mae gan y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd i Oedolion linell gymorth nad oes angen atgyfeiriad gan feddyg teulu.

## 4 Gwybodaeth i Ofalwyr

A ydych chi'n darparu canllawiau clir i ofalwyr ar beth i'w wneud os ydyn nhw'n teimlo bod angen mwy o gefnogaeth ar eu hanwylyd?

**Ymateb:**

Tra bod pobl yn gleifion mewnol, mae gan ofalwyr fynediad at wybodaeth a gyflenwir gan y Gymdeithas Strôc, mae pwyntiau gwybodaeth a gynhelir yn rheolaidd ar yr Uned Strôc Hyper-Acíwt (HASU) a wardiau adsefydlu. Ers dechrau mis Chwefror, mae Clinigau Gofalwyr yn rhedeg ddwywaith yr wythnos yn Ysbyty Ystrad Fawr a darperir rhagor o wybodaeth yno yn ôl yr angen. Mae'r gwasanaeth Rhyddhad Cynnar â Chymorth yn darparu Canllaw Gwybodaeth am Strôc i bawb sy'n cynnwys manylion cyswllt cenedlaethol a lleol penodol ar gyfer rhagor o gymorth. Mae pobl hefyd yn cael eu cyfeirio at rwydwaith o naw Clwb Strôc yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae cyfleoedd i bobl ddod yn Bartneriaid Cyfoedion drwy'r gwasanaeth gwirfoddol.

## 5 Cyfeirio

A roddir manylion cyswllt ar gyfer elusennau neu wasanaethau cymunedol perthnasol (e.e., Cymdeithas Strôc) i ofalwyr fel rhan o wybodaeth rhyddhau?

**Response:**

Mae gan ofalwyr fynediad at wybodaeth a gyflenwir gan y Gymdeithas Strôc, mae pwyntiau gwybodaeth a gynhelir yn rheolaidd ar yr Uned HASU Strôc a'r wardiau adsefydlu. Gwybodaeth ychwanegol: mae'r Ymgynghorydd Proffesiynau Iechyd Cynghreiriol Strôc newydd ei benodi yn gweithio ar Lwybr Gofalwyr Strôc mewn partneriaeth ag Arweinydd Trawsnewid Gofalwyr Rhanbarthol. Mae cyfres o fideos yn cael ei chynhyrchu i roi addysg fer i ofalwyr pobl sydd wedi cael strôc ac anaf i'r ymennydd ynglŷn â rheoli blinder. Cynhelir cyfarfod Gofalwyr Strôc yn y gymuned fisol. Dolen gwefan: Gwasanaeth Adsefydlu Niwrolegol Cymunedol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n cynnwys gwybodaeth am y Tîm Rhyddhad Cynnar â Chymorth Strôc a'r Gwasanaeth Byw'n Dda ar ôl Strôc

# Local Authorities in Gwent

## 1 Canolfannau Seibiant a Dydd

Pa opsiynau ar gyfer canolfannau dydd neu ofal seibiant sydd ar gael ar hyn o bryd ym mhob bwrdeistref, a sut mae gofalwyr yn cael gwybod amdanynt?

**Ymateb:**

Ar draws Gwent, darperir cyfleoedd seibiant a dydd trwy gyfuniad o ddarpariaeth fewnol gan yr awdurdod lleol, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, a dewisiadau amgen yn y gymuned. Mae modelau argaeledd a chyflenwi yn amrywio yn ôl ardal awdurdod lleol i adlewyrchu angen lleol.

Er nad yw pob partner yn darparu gwasanaethau dydd neu seibiant yn uniongyrchol, mae gofalwyr yn cael eu cefnogi i gael mynediad at wybodaeth glir a chywir am yr hyn sydd ar gael yn eu hardal leol. Mae Gweithwyr Allgymorth yn cynnal gwybodaeth gyfredol am wasanaethau lleol, gan gynnwys:

- Canolfannau dydd a chyfleoedd dydd yn y gymuned
- Darpariaeth gofal seibiant a byr
- Cymorth dydd arbenigol ar gyfer dementia ac anabledd
- Dewisiadau amgen fel gwasanaethau gwarchod a gweithgareddau cymunedol
- Meini prawf cymhwysedd a llwybrau atgyfeirio

Mae gwybodaeth wedi'i theilwra i fwrdeistref ac amgylchiadau unigol y gofalwr i sicrhau perthnasedd ac eglurder

## Sut mae gofalwyr yn cael gwybod

Mae gofalwyr yn cael gwybod am gyfleoedd seibiant a dydd trwy sawl llwybr, gan gynnwys:

- Sgyrsiau uniongyrchol gyda Gweithwyr Allgymorth
- Grwpiau cymunedol, sesiynau allgymorth a digwyddiadau
- Cymorth dros y ffôn yn cynnig arweiniad personol
- Gwybodaeth a thaflenni printiedig lle bo modd
- Grwpiau gofalwyr, sydd hefyd yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid a rhannu gwybodaeth anffurfiol

Mae partneriaid yn sicrhau bod gofalwyr yn deall nid yn unig pa wasanaethau sy'n bodoli, ond hefyd sut i gael mynediad atynt, a oes angen atgyfeiriadau, a ble y gellir darparu cefnogaeth i gynorthwyo gyda'r broses atgyfeirio.

## Grwpiau gofalwyr

Mae grwpiau gofalwyr ar agor i ofalwyr a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Mae'r dull cynhwysol hwn yn cydnabod y gallai gofalwyr fod yn methu â mynychu os na allant adael eu hanwylyd gartref. Mae agor grwpiau i ofalwyr ac unigolion sy'n derbyn gofal yn helpu i gael gwared ar rwystrau, yn cefnogi cynhwysiant, ac yn adlewyrchu realiti rolau gofalu.

## 2 Gwybodaeth Hygyrch

A ellir darparu gwybodaeth am gymorth i ofalwyr mewn fformatau y tu hwnt i ar-lein (e.e., canllawiau print, hybiau cymunedol), o ystyried bod llawer o ofalwyr yn cael trafferth dod o hyd i gymorth yn ddigidol?

**Ymateb:**

Mae partneriaid yn cydnabod nad yw pob gofalwr yn gallu cael mynediad at wybodaeth ar-lein nac yn teimlo'n hyderus yn ei defnyddio. I fynd i'r afael â hyn, darperir gwybodaeth am gefnogaeth i ofalwyr mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys:

- Canllawiau printiedig, taflenni a deunyddiau hawdd eu darllen
- Gwybodaeth ar gael trwy leoliadau cymunedol
- Gwybodaeth bost ar gais
- Cymorth dros y ffôn a sgyrsiau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol

Mae'r dulliau hyn yn sicrhau y gall gofalwyr nad ydynt wedi'u cysylltu'n ddigidol, neu sy'n well ganddynt gyswllt personol, dderbyn cyngor, arweiniad a chefnogaeth emosiynol glir a phersonol o hyd.

## 3 Asesiadau Gofalwyr

Sut mae gofalwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawl i asesiad gofalwyr, a pha gefnogaeth ymarferol y gallant ei disgwyl ganddo?

**Ymateb:**

Er nad yw sefydliadau partner yn cynnal Asesiadau Gofalwyr yn uniongyrchol, maent yn sicrhau'n weithredol fod gofalwyr yn ymwybodol o'u hawl gyfreithiol i ofyn am un gan eu hawdurdod lleol.

Er nad yw sefydliadau partner yn cynnal Asesiadau Gofalwyr yn uniongyrchol, maent yn sicrhau'n weithredol fod gofalwyr yn ymwybodol o'u hawl gyfreithiol i ofyn am un gan eu hawdurdod lleol.

Yn ystod gyswllt â gofalwyr – boed drwy apwyntiadau, galwadau ffôn neu ddigwyddiadau cymunedol – mae partneriaid yn egluro:

- Beth yw Asesiad Gofalwyr
- Pam ei fod yn bwysig
- Sut y gall gefnogi lles gofalwyr
- Y mathau o gefnogaeth a allai ddeillio o hynny

Mae gofalwyr hefyd yn cael eu cefnogi i ddeall beth i'w ddisgwyl o'r broses asesu, gan gynnwys y mathau o gwestiynau y gellir eu gofyn a sut mae'r asesiad yn ystyried lles a'r rôl ofalu. Mae hyn yn helpu i leihau pryder ac yn gwneud i'r broses deimlo'n fwy rheolaethadwy.
Atgyfeiriadau

Lle bo'n briodol, gellir cwblhau a chyflwyno atgyfeiriadau i'r awdurdod lleol ar ran y gofalwr. Mae hyn yn lleihau'r baich o lywio ffurflenni a phrosesau ac yn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn gywir. Cynhelir cyswllt parhaus tra bod gofalwyr yn aros am ganlyniadau.

## Cymorth Ôl-Ddiagnosis a Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Yn dilyn diagnosis o ddementia, cynigir apwyntiadau ôl-ddiagnostig tua thri i bedwar mis ar ôl y diagnosis i helpu i atal teuluoedd rhag teimlo nad oes ganddynt gefnogaeth.

Anogir gofalwyr i fod yn rhan o drafodaethau am ofal a meddyginiaeth, oni bai bod yr unigolyn wedi mynegi dymuniad i beidio â'u cynnwys. Rhoddir ystyriaeth i drefniadau gallu a Phŵer Atwrnai Arhosol.

Mae amseroedd ymateb i alwadau a negeseuon yn amrywio yn dibynnu ar bwysau lleol, staffio ac ymrwymiadau clinig; fodd bynnag, mae timau'n anelu at ymateb cyn gynted â phosibl. Mae desg ddyletswydd ar gael ar gyfer ymholiadau brys o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9yb–5yh, gyda chlinigwr yn gweithio ynddi.

Mae teuluoedd yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol, gan gynnwys Cymdeithas Alzheimer a Chanolfannau Dementia. Mae gwybodaeth hefyd ar gael drwy wefan MAS, sy'n cynnwys dolenni i wasanaethau cymorth lleol a manylion cyswllt. Mae taflenni diagnostig yn aros i gael eu hargraffu.

Mae cefnogaeth ymarferol, gan gynnwys gweithgareddau ysgogiad gwybyddol, wedi'i hamlinellu ar wefan MAS. Ystyrir atgyfeiriadau at wasanaethau eraill fel Therapi Iaith a Lleferydd neu Therapi Galwedigaethol ar sail unigol.

Ar adeg y diagnosis, darperir manylion cyswllt y tîm perthnasol. Er nad yw nyrsys ymroddedig bob amser yn bosibl oherwydd pwysau staffio, rhoddir blaenoriaeth i barhad gofal lle bynnag y bo'n bosibl.

## Canolfan Ddydd ac Ysbaid yr Awdurdod Lleol

Mae pob awdurdod lleol ledled Gwent yn darparu ystod o wasanaethau mewnol a chomisiynedig ar gyfer oedolion hŷn, pobl â dementia, unigolion ag anableddau dysgu, a phlant a theuluoedd â niwroamrywiaeth.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gwasanaethau dydd mewn adeiladau, cymorth yn y gymuned, tai seibiant, gwasanaethau allgymorth a chyfleoedd cyflogaeth â chymorth. Fel arfer, mae mynediad drwy asesiadau anghenion y gwasanaethau cymdeithasol a llwybrau atgyfeirio mewnol.

Mae partneriaid ledled Gwent yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia yn derbyn cefnogaeth glir, hygyrch ac sy'n canolbwyntio ar y person. Drwy gynnig gwybodaeth mewn sawl fformat, cefnogi mynediad at gyfleoedd seibiant a gofal dydd, hyrwyddo ymwybyddiaeth o Asesiadau Gofalwyr, a darparu dilyniant ar ôl diagnosis, mae gwasanaethau'n anelu at leihau'r pwysau ar ofalwyr a'u cefnogi i gael mynediad at y cymorth a'r gydnabyddiaeth y maent yn eu haeddu.

Rydym yn ymddiried bod yr ymateb hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ac yn croesawu deialog barhaus â chi i gefnogi gwelliant parhaus.

# Camau nesaf

Mae gofalwyr ledled Gwent wedi rhannu mewnwelediadau gonest sy'n tynnu sylw at yr angen am wybodaeth gliriach, cefnogaeth amserol a chydnabyddiaeth gryfach o'u rôl hanfodol. Bydd Llais yn parhau i rannu'r profiadau hyn gyda phartneriaid, monitro'r camau gweithredu a amlinellir yn eu hymatebion, a sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn parhau i fod wrth wraidd gwelliant.